## Darbwyllo Pedr

**Darllen Actau 10:1–48**

Wedi'r Atgyfodiad fe gafodd Pedr brofiad sydd werth ei grybwyll, ac ar ôl darllen y ddegfed bennod o Lyfr yr Actau, cawn y cefndir yn llawn. Ac mewn byr eiriau, canfu Simon Pedr wirionedd pwysig arall, nad yw Duw yn Dduw'r Iddewon yn unig, ond ei fod ef yn Dduw holl genhedloedd y ddaear. Bu'r genedl Iddewig yn genedl etholedig yn ôl Ysgrythurau'r Hen Destament, ond erbyn cyfnod Pedr yr oedd hithau wedi colli'r weledigaeth a'i phriod le fel llawforwyn Duw. Yn wir, erbyn dyddiau Iesu yr oedd Ysbryd Duw yn symud yn rymus nid yn unig ymhlith y genedl Iddewig a gafodd freintiau mor fawr, ond mewn cenhedloedd na chafodd yr un cyfleusterau. Deil yr Iddewon i ddisgwyl y Meseia hir addawedig. Credwn ni yn gydwybodol fod y Meseia hwnnw wedi dod yn Iesu o Nasareth. Yn wir, erbyn diwedd y cynhaeaf mawr mi fydd holl genhedloedd y byd yn genhedloedd etholedig i Dduw. Credwn fod cenedl y Cymry yn genedl etholedig iddo; felly hefyd genedl y Groegiaid a chenedl yr Alban. Yn wir, yr addewid yw 'holl genhedloedd y byd'.

'Yr wyf yn deall,' meddai Pedr wedi'r weledigaeth ryfeddol yn nhÿ Cornelius, 'nad ydyw Duw yn dderbyniwr wyneb'. Y peth pwysig ym mhob cenedl ydyw ei gorffennol hi. Y mae hynny yn gwbl arbennig. Ond awn gam ymhellach a dweud mai'r rhai sydd heddiw yn ei ofni Ef, ac yn gweithredu cyfiawnder yn ei Enw, ac sydd yn gymeradwy gan Dduw ei hun yw'r genedl etholedig. Mewn geiriau byr ond pwerus: y rhai sy'n caru Duw yng Nghrist yw'r etholedigion. Dyna i chi dröedigaeth ar ein cyfer ni heddiw yn ein gwahanol gymunedau: trowch o'r byd presennol i ganfod Iesu Grist; ac yna trowch i'r byd, yn ei angen a'i amrywiaeth, i ganfod drachefn yr Arglwydd Iesu, y Meddyg Da, a Chyfaill publicanod a phechaduriaid.

***D. Ben Rees***